Parc Tŷ Glas Llanisien Llanishen Caerdydd Cardiff Cymru Wales CF14 5DU
Ebost Email s4c@s4c.co.uk / Gwefan Website s4c.co.uk
Ffôn Phone +44(0)29 2074 7444 / Ffacs Fax +44(0)29 2075 4444

Gorffennaf/2008 Gwahoddiad i Dendro

Cwpan Rygbi Ewrop 2008/9 a 2009/10

1. Rhagarweiniad

Ym mis Gorffennaf 2004 cyhoeddwyd Strategaeth Rhaglenni S4C ar gyfer cyfnod o bum mlynedd. Mae'r Strategaeth yn rhoi'r pwyslais ar greu gwasanaeth o safon eithriadol mewn partneriaeth â chynhyrchwyr sydd â'u bryd ar gyflawni rhagoriaeth greadigol.

Fel rhan o'r strategaeth ymrwymodd S4C i barhau i negydu am hawliau i ddarlledu chwaraeon yn ecsgliwsif yn yr iaith Gymraeg ac i gynnal ei henw da ym maes chwaraeon gyda gwasanaeth cynhwysfawr o rygbi a phêl-droed cartref a rhyngwladol.

Mae S4C yn berchen ar yr hawliau ecscliwsif i ddarlledu yn yr iaith Gymraeg, ar wasanaethau teledu rhad ac am ddim, uchafbwyntiau Cwpan Rygbi Ewrop (a adnabyddir fel Cwpan Heineken ar hyn o bryd) am y ddau dymor nesaf.

Drwy ddilyn y Strategaeth Rhaglenni gwahoddir cynhyrchwyr i gynnig am y cytundeb i ddarparu pecyn o raglenni uchafbwyntiau a fydd yn ymateb i ddisgwyliadau a dyheadau S4C.

2. Manylion er mwyn paratoi cais

2.1 Ystod y cytundeb:

Cynigir cytundeb o ddwy flynedd (2008/9 a 2009/10). Bydd S4C yn adolygu'r cytundeb a pherfformiad y cwmni llwyddiannus ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf a chedwir yr hawl i derfynu'r cytundeb yn dilyn y fath adolygiad.

Mae S4C yn amcangyfrif mai'r gost o gynhyrchu a chyfleu'r holl raglenni fydd y swm o £840,000 y tymor. Nodir y pris hwn fel arweiniad yn unig ac fe'i cynigir fel arwydd o'r arian sydd ar gael. Fe ddylai pob cwmni nodi'n glir yn ei gais yr union ddarpariaeth y gall S4C ddisgwyl am y pris hwn. Os ydych yn cynnig unrhyw ddarpariaeth ychwanegol neu ehangach, dylid nodi'r gost ar ei chyfer ar wahân. Bydd S4C yn croesawu ceisiadau sy'n is na'r amcanbris ond ni fydd unrhyw ddyletswydd arnynt i gynnig y tendr i'r cwmni sydd yn cynnig y pris isaf.

Mae S4C wedi sicrhau'r hawliau canlynol:

- Yr hawl i ddangos hyd at 40 munud o uchafbwyntiau o unrhyw gêm a chwaraeir
- Yr hawl i neud rhaglen rhagolwg neu arolwg bob penwythnos o'r gystadleuaeth (heblaw am benwythnos y rownd derfynol).

2.2 Patrwm y gystadleuaeth:

Cynhelir y gystadleuaeth dros gyfnod o naw penwythnos. Mae'r patrwm a'r dyddiadau fel a ganlyn ar gyfer tymor nesaf:

<u>Gemau 'Pwll'</u>
Penwythnos 10 Hydref 2008
Penwythnos 17 Hydref 2008
Penwythnos 5 Rhagfyr 2008
Penwythnos 12 Rhagfyr 2008
Penwythnos 16 Ionawr 2009
Penwythnos 23 Ionawr 2009

<u>Rownd yr Wyth Olaf</u>
Penwythnos 10 Ebrill 2009

<u>Gemau Cyn Derfynol</u>
Penwythnos 1 Mai 2009

<u>Rownd Derfynol</u>
23 neu 24 Mai 2009

2.3 Patrwm darlledu:

- 14 rhaglen uchafbwyntiau 60m o hyd ar noson y gemau gyda phwyslais ar uchafbwyntiau gemau timau rhanbarthol Cymru a'r gemau fydd o ddiddordeb i gynulleidfa S4C.
- Un rhaglen uchafbwyntiau 60m o hyd bydd ar benwythnos y rownd gyn derfynol.
- Un rhaglen uchafbwyntiau 60m o hyd o'r rownd derfynol ar noson y gêm honno.

Yn y gorffennol mae S4C wedi dangos rhaglenni ar nosweithiau Llun ar ol bob cymal o'r gystadleuaeth Roedd y rhaglenni hynny yn cynnwys holl uchafbwyntiau'r penwythnos o gemau Heineken yn ogystal ag agweddau sgwrsio, dadansoddi ac adloniadol. Fel rhan o'r broses dendro hoffai S4C dderbyn syniadau am y ffordd fwyaf effeithiol o gyflwyno'r agweddau hyn. Rhagwelir 8 rhaglen 60m o hyd.

Mae'n annhebygol y bydd y rhaglenni uchod yn cael eu darlledu cyn 19:00.

Mae S4C yn cadw'r hawl i adolygu a newid ei hanghenion os yw'r ERC yn cyhoeddi newidiadau i amserlen y gystadleuaeth neu'n newid strwythur y gystadleuaeth neu'r tymor.

2.4 **Manylion technegol:**
Fel arfer, bydd Sky neu un o'r partneriaid darlledu eraill yn darparu lluniau o'r gemau ond mae S4C wedi ei gytundebu i gynhyrchu darpariaeth Uned Allanol o hyd at 6 gêm y tymor. Mae'n bosib fydd un o'r rhain y tu allan i Gymru. Y cwmni llwyddiannus fydd yn gyfrifol am fod yn Ddarlledwr Cartref (Host Broadcaster) yn y gemau yma.

Mi fydd gofyn i'r cwmni llwyddiannus gyd-weithio'n agos iawn a thîm cynhyrchu rygbi Sky Sports. Mae'n bur debyg fydd Sky am ychwanegu at gyfleusterau'r Uned Allanol gan osod tîm sylwebu eu hunain yn y maes. Mae hefyd yn bosib y bydd Sky Sports am gymryd ffid byw o'r Unedau Allanol yma. Mae'r un yn wir o ddarlledwyr eraill y gystadleuaeth.

Fe fydd gofyn i'r holl ddarpariaeth gael ei gynhyrchu mewn ffurf manylder safonol (SD) 16:9 ond gyda'r opsiwn i ymestyn y ddarpariaeth i fod mewn manylder uwch. **(HD)**

Bydd angen i'r Unedau Allanol gynnwys o leiaf 11 camera ac fe ddylai ddilyn y patrwm safonol o ran lleoliadau camera.

O bryd i'w gilydd bydd angen darparu ar gyfer Swyddog Teledu (TMO).

Fe ddylai'r Unedau Allanol gynnwys cyfleusterau ail chwarae gyda'r adnoddau angenrheidiol.

Fe fydd yna adegau lle bydd angen darparu cyfleusterau sylwebu a chyfweld ar gyfer darlledwyr tramor

Fe fydd angen darparu 2 wahanol ffid o'r Uned Allanol. Un ar gyfer rhaglenni S4C gyda graffeg Cymraeg, ac un ar gyfer darlledwyr eraill fydd a graffeg Saesneg.

Mae angen i'r ffid rhyngwladol ddilyn y patrwm canlynol :
- 12 munud cyn y gic gyntaf - lluniau lliw o leoliad y gêm a'r timau'n cyrraedd.
- 10 munud cyn y gic gyntaf – tafliad y geiniog wedi ei recordio'n gynharach.
- Y timau i'r maes gyda graffeg y timau a'r eilyddion.

Fe fydd yn rhaid i steil y graffeg ddilyn canllawiau a steil y gystadleuaeth.

Os na fydd un o'r darlledwyr eraill yn cynnig darparu lluniau o un o gemau timau rhanbarthol Cymru yna bydd angen i'r cwmni darparu lluniau o'r gemau hyn. Mae'n bosib y bydd hwn y tu allan i'r 6 gêm uned allanol a nodir uchod. Rhagwelir y bydd unedau 1 camera yn ddigonol ar gyfer y gemau hyn, ond dylid cynnig lwfans am unedau allanol ychwanegol.

Dylid cynnwys y gost o dderbyn lluniau oddi wrth ddarlledwyr tramor o gemau timau rhanbarthol Cymru.

Mae'n bosib y gellir dod i drefniant gyda rhai o'r darlledwyr tramor a Sky Sports i dderbyn 'play-out' ar fore dydd Sul.

3. Manylion i'w cyflwyno

Gofynnwn i chi gyflwyno'r wybodaeth a nodir isod. Nid oes ffurf safonol ar gyfer cyflwyno'r manylion ond anogir ymgeiswyr i osgoi gwario ar gynhyrchu cyflwyniadau lliwgar a drud. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni fydd S4C yn atebol am unrhyw gostau sy'n deillio o baratoi neu gyfleu unrhyw gais, nac am unrhyw gostau sy'n deillio o fynychu unrhyw gyfweliad neu o wneud unrhyw gyflwyniad i S4C. Os ydych yn bwriadu gwneud cyflwyniad gofynnwn i chi ei gyfyngu i 15 munud.

3.1 Disgrifiad o gynnwys, arddull, golwg a theimlad y rhaglenni.

3.2 Manylion llawn am y tîm cynhyrchu. Dylid nodi'r aelodau allweddol a chynnwys llythyr yn cadarnhau eu cydsyniad i fod yn rhan o'r cais. Dylid nodi hefyd brofiad y cwmni a'r tîm cynhyrchu o gynhyrchu rhaglenni chwaraeon byw o safon yn ogystal â phecynnau uchafbwyntiau.

3.3 Dylid nodi enwau cyflwynwyr, sylwebwyr a chyfranwyr addas.

3.4 Manylion llawn yr adnoddau cynhyrchu, gan gynnwys Unedau Darlledu Allanol, adnoddau ôl gynhyrchu a manylion lincs. Dylid nodi enwau unrhyw bersonél technegol allweddol perthnasol.

3.5 Manylion llawn o'r pecynnau graffeg y bwriedir eu defnyddio.

3.6 Y manteision disgwyliedig yn nhermau rhagoriaeth greadigol.

3.7 Cyllideb yn seiliedig ar y manylion yn y gwahoddiad i dendro hwn a'r manylion yn Atodlen A, sef y Nodiadau Ariannol.

3.8 Unrhyw sylwadau cyfreithiol yn deillio o'r Nodiadau Cyfreithiol yn Atodlen B.

3.9 Manylion am unrhyw fanteision ychwanegol i S4C.

4. Camau ac amserlen y broses dendr

Fe ofynnir i chi anfon eich cais yn electroneg (gan gynnwys y gyllideb) at:

Cyfeiriad e-bost **tender@s4c.co.uk**
Ceisiadau i'w derbyn erbyn **12:00 canol dydd ar Ddydd Mawrth 12 Awst 2008**

NI DDERBYNNIR UNRHYW GYNIGION A DDAW I LAW WEDI'R DYDDIAD A'R AMSER CAU. Nid yw'r Darlledwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddiffygion mewn unrhyw system drosglwyddo nac am unrhyw geisiadau sydd yn mynd ar goll, yn cael eu hoedi neu'n ddiffygiol. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau fod ei gais (ynghyd ag unrhyw atodiadau perthnasol) wedi ei baratoi mewn da bryd (gan gymryd i ystyriaeth y posibilrwydd y gall staff fod yn absennol neu fethiannau technegol) ac y caiff ei gyflwyno cyn y dyddiad a'r amser cau. Ni ystyrir prawf o anfon y cais fel prawf o'i dderbyn ac anogir i bob ymgeisydd holi am gadarnhad o dderbyn y cais.

Mi fydd y panel yn dewis rhestr fer o geisiadau ac yn hysbysu'r cwmnïau ar y rhestr fer cyn diwedd y dydd ar Ddydd Iau 14 Awst 2008 yn eu gwahodd i gyfweliad. Bydd S4C yn hysbysu'r cwmnïau na fu'n llwyddiannus ar yr un diwrnod. Rhagwelir y cynhelir y cyfweliadau unai ar Ddydd Iau 21 Awst 2008 neu ar Ddydd Gwener 22 Awst 2008. Cedwir yr hawl gan S4C i beidio a chynnal cyfweliadau.

Os oes yna gwmni llwyddiannus (ac yn ddarostyngedig i gytundeb), bydd S4C yn cysylltu gyda'r cwmni drwy alwad ffôn ar Ddydd Mawrth 26 Awst 2008 fan hwyraf, a gyda'r cwmnïau eraill a gafodd eu cyfweld i'w hysbysu na fuont yn llwyddiannus ar yr un adeg. Os na fu neb yn llwyddiannus, bydd S4C yn hysbysu'r holl gwmniau a gafodd eu cyfweld o hyn ar yr un dyddiad.

Neilltuir cyfnod o fis i drafod unrhyw faterion cyllidebol a chytundebol eraill a disgwylir arwyddo'r cytundeb terfynol erbyn diwedd mis Medi.

5. Ffactorau comisiynu

Ystyrir y ceisiadau gan banel o swyddogion o S4C. Y panel hwn fydd yn ystyried y manylion a gynhwysir yn y ceisiadau ac unrhyw wybodaeth bellach neu bwyntiau o eglurhad a dderbyniwyd yn ystod y cyfweliad, ac yn gwneud y penderfyniad terfynol o ran y tendr yn ôl ei ddisgresiwn llwyr ei hun.

Fodd bynnag, seilir y penderfyniad terfynol ar y ffactorau canlynol:

- Gallu a phrofiad y cwmni a'r tîm cynhyrchu i gynhyrchu a chyflenwi darpariaeth chwaraeon byw o safon a chynhyrchu pecynnau uchafbwyntiau; (Gwerth 30%)
- Gallu a phrofiad y cwmni adnoddau i gyfleu darpariaeth chwaraeon byw ac uchafbwyntiau o safon; (Gwerth 10%)
- Cynnwys golygyddol ac arddull y cais; (Gwerth 35%)
- Gwerth gorau i S4C – i gynnwys asesiad o werth, effaith a photensial y cais; (Gwerth 15%)
- Yr agweddau busnes a gallu'r cwmni i gyflenwi'r cytundeb. (Gwerth 10%)

6. Ymholiadau pellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau mewn cysylltiad â'r broses dendro, yna dylid danfon e-bost at S4C at tendr@s4c.co.uk yn y lle cyntaf, a bydd cynrychiolydd ar ran S4C yn cysylltu â chi. Er mwyn sicrhau tegwch i bob cwmni mae'n bosib y bydd yr atebion i unrhyw gwestiynau yn cael eu rhoi ar wefan cynhyrchu S4C, ond ni fydd ffynhonnell yr ymholiad yn cael ei datgelu.

Noder os gwelwch yn dda
Mae'r gwahoddiad yn ddarostyngedig i'r Nodiadau Cyfreithiol yn Atodlen B ac yn agored i bob cwmni sy'n credu y gallant gwrdd â'r gofynion a'r criteria a gynhwysir yn y gwahoddiad hwn, yn ddarostyngedig yn unig i'r cyfyngiadau ariannol yn y gwahoddiad. Yn benodol nid yw'r gwahoddiad wedi ei gyfyngu i gwmnïau o faint arbennig nag o unrhyw ardal(oedd) daearyddol arbennig. Gall cwmnïau heb unrhyw brofiad darlledu blaenorol ond sydd ag arbenigedd perthnasol (e.e. o greu cynnyrch aml-gyfryngol neu gymwysiadau rhyngweithiol neu gwmnïau adnoddau) fod yn rhan o gais.

~~Yn y pen draw, ni fydd unrhyw ddyletswydd ar S4C i gynnig y tendr i unrhyw gwmni ac nid oes unrhyw~~ beth yn y gwahoddiad hwn sy'n gorfodi S4C i wneud hynny. Yn benodol ond heb gyfyngiad, bydd gan S4C y dewis o gynnig y tendr a'r comisiwn naill ai i un cwmni neu i rannu'r comisiwn rhwng dau neu fwy o'r cwmniau. Ar y llaw arall, fe fydd gan S4C yr hawl i beidio â rhoi'r tendr a'r comisiwn i unrhyw gwmni ond, yn hytrach, i gynhyrchu'r rhaglenni yn fewnol, pe baënt yn anfodlon ag ansawdd y ceisiadau neu os na fydd ymateb digonol i'r gwahoddiad hwn i dendro.

Bydd angen i bob cwmni fanylu os oes posibilrwydd o wrthdaro buddiannau rhwng yr unigolion sydd ynghlwm â'r cais ag unrhyw aelod o staff S4C, er mwyn galluogi S4C i aseinio staff heb unrhyw gysylltiadau o unrhyw fath â'r cais i'r broses.

Rhestr yr atodlenni

ATODLEN A – Nodiadau Ariannol
ATODLEN B - Nodiadau Cyfreithiol

S4/C

ATODIAD A

Nodiadau Ariannol
Mae S4C yn disgwyl i bob cais gynnwys cyllideb sy'n amlinellu'r gost o ddarparu'r gwasanaeth Gofynnir i chi gyflwyno eich cyllideb ar ffurf safonol electroneg (36 atodlen) S4C. Mae copïau ar gael ar http://www.s4c.co.uk/producers/downloads/forms/cyllideb-pro-forma.xls . Nid oes ffurf safonol ar gyfer cyflwyno gweddill y manylion ond anogir cwmnïau i osgoi gwario ar gynhyrchu cyflwyniadau lliwgar a drud.

Dylid paratoi'r cais ar y rhagdybiaethau canlynol:

1. Dylid cynnwys y gost o gynhyrchu 16 rhaglen uchafbwyntiau 60m o hyd ynghyd ag 8 rhaglen rhagolwg/arolwg 60m am un tymor (2008/9). Ni ddylid cynnwys y gost o is-deitlo'r rhaglenni.

2. Mae S4C wedi sicrhau'r holl ganiatâd a hawliau sydd eu hangen oddi wrth yr ERC er mwyn caniatau darlledu'r rhaglenni ar wasanaethau S4C ac ni fydd angen i'r gyllideb gynnwys unrhyw ffioedd neu daliadau iddynt.

3. Dylid cynnwys y gost o glirio'r rhaglenni i'w darlledu fesul 1 darllediad ar S4C ac ar S4C Digidol trwy gyfrwng teledu lloeren ddigidol heb ei encryptio. Dylid nodi unrhyw gyfyngiadau yn y cais / manylion y gyllideb

4. Ni fydd Cod Ymarfer S4C yn weithredol o ran y tendr hwn na'r rhaglenni a bydd yr holl hawlfraint a'r hawliau eraill yn y rhaglenni yn eiddo i S4C (mewn perthynas ag S4C a'r cwmni cynhyrchu yn unig) a bydd disgwyl i'r cwmni cynhyrchu gynnwys y gost o sicrhau ac o aseinio'r fath hawliau yn y rhaglenni i S4C yn y gyllideb.

5. Dylid cynnwys y gost o gydymffurfio yn llawn â Chanllawiau Technegol S4C, a'r gost o sicrhau cysylltiad lloeren/cebl er mwyn trosglwyddo'r cynnwys byw i ganolfan ddarlledu S4C. Noder bod modd i S4C dderbyn rhaglenni byw yn uniongyrchol i'w pencadlys darlledu drwy loeren. Gellir ystyried hyn fel opsiwn. Os yn cyfleu ar dâp, dylid cyfleu ar Digibeta Manylder Safonol, sgrin lydan, 16:9.

6. Lle nad yw'r ddarpariaeth yn fyw, y gost o gyfleu'r eitemau/rhaglenni i S4C. Nodwch yn glir beth yw sail y pris yn y rhestr rhagdybiaethau.

7. Dylid cynnwys y gost o dderbyn lluniau'r gemau oddi wrth SKY Sports a / neu'r darlledwyr eraill.

8. Dylid cynnwys y gost o ddarparu unedau allanol ar gyfer 6 o'r gemau pwll.

9. Dylid cynnwys lwfans ar gyfer TMO yn y 6 gem pwll y mae S4C yn gyfrifol amdanynt.

10. Dylid cynnwys y gost o yswirio'r gwaith cynhyrchu ynghyd â ffi rheoli a chostau gweinyddol cysylltiedig â chynhyrchu'r rhaglenni.

11. Dylid cynnwys y gost o recordio'r rhaglenni mewn fformat Manylder Safonol, sgrin lydan, anamorffig uchelder llawn (16:9). Noder hefyd fod gan S4C Bolisi Manylder Uwch. Mae'n bosib fydd S4C am adolygu elfennau Manylder Uwch a Manylder Safonol y Cytundeb hwn erbyn 2010.

12. Dylid cynnwys y gost o gydymffurfio yn llawn â chanllawiau S4C fel y nodir yn Atodlen B.

13. Dylid cynnig lwfans arwahan am unedau allanol ychwanegol rhag ofn y bydd rhaid darparu lluniau o gemau timau rhanbarthol Cymru uwch ben y 6 gem pwll.

Bydd angen i bob cais fanylu os oes posibilrwydd o dderbyn arian neu gymorth ariannol o unrhyw ffynhonnell arall, h.y. os yw'r cyllidebau wedi eu paratoi ar y rhagdybiaeth o dderbyn unrhyw grant. Fodd bynnag, noder os gwelwch yn dda mai mater i S4C yn unig yw trefnu unrhyw nawdd neu hysbysebion ar gyfer y gwasanaeth/rhaglenni ac ni ddylai unrhyw gwmni gyflwyno cais ar y sail neu'r ddamcaniaeth y bydd modd iddo sicrhau ffynhonnell ychwanegol o arian (uwchlaw pris y cytundeb a gymeradwyir gan S4C) drwy sicrhau nawdd neu werthu hysbysebion ar gyfer y gwasanaeth/rhaglenni.

ATODIAD B

Nodiadau Cyfreithiol

Bydd yn ofynnol i'r cwmni llwyddiannus (os yn berthnasol) weithredu yn unol â gofynion a chyfarwyddiadau S4C ac, yn benodol, yn unol â'r cytundeb a arwyddir rhwng S4C a'r cwmni llwyddiannus.

Fel y nodwyd uchod, ni fydd Còd Ymarfer S4C yn weithredol i'r tendr hwn a'r rhaglenni a bydd yr holl hawlfraint a'r hawliau eraill yn y rhaglenni yn eiddo i S4C (o ran S4C a'r cwmni cynhyrchu yn unig). O ganlyniad, caiff y cwmni llwyddiannus (os yn berthnasol) ei gytundebu ar y sail y bydd S4C yn ariannu'r gost o gynhyrchu'r rhaglenni yn llwyr ac, mewn cydnabyddiaeth o hynny, yn cymryd yr holl hawlfraint a hawliau eraill yn y rhaglenni. Yn benodol, caiff y cwmni llwyddiannus, (os yn berthnasol) ei gytundebu yn unol â thelerau ac amodau'r cytundeb comisiynu drafft sydd ynghlwm. Fodd bynnag, mae S4C yn cadw'r hawl i amrywio a diwygio'r cytundeb comisiynu drafft yn y fath fodd ag y mae S4C yn ystyried yn angenrheidiol ac fe fydd rhaid i'r cytundeb adlewyrchu a chadarnhau ar ba delerau y cynigiwyd y comisiwn i'r cwmni llwyddiannus (os yn berthnasol). Bydd yr hawliau ymelwa yn y rhaglenni yn ddarostyngedig i'r cytundeb hawliau rhwng S4C a'r ERC.

Os nad yw unrhyw gwmni yn fodlon â hyn neu os dymuna gynnig unrhyw newidiadau neu amrywiadau i'r cytundeb comisiynu drafft, dylid hysbysebu S4C o hyn yn y manylion a gyflwynir. Fel arall, ystyrir bod pob cwmni yn derbyn a chytuno â thelerau ac amodau'r cytundeb comisiynu drafft trwy gyflwyno cais. Heb amharu ar yr uchod, mae S4C yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw gais neu i ddiystyru unrhyw newidiadau neu amrywiadau i'r cytundeb comisiynu drafft a gynigir gan unrhyw gwmni, oni bai y crybwyllwyd hwy yn benodol i S4C yn y cais neu yn ystod y cyfweliad (os yn berthnasol).

Cynigir cytundeb o ddwy flynedd (2008/9 a 2009/10). Bydd S4C yn adolygu cytundeb a pherfformiad y cwmni llwyddiannus ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf a chedwir yr hawl i derfynu'r cytundeb yn dilyn y fath adolygiad.

S4C a'r cwmni llwyddiannus fydd yr unig bartïon i'r cytundeb.

Nid oes rheidrwydd ar S4C i dderbyn holl elfennau'r cynnig llwyddianus (os yn berthnasol). Gall dderbyn elfennau o un neu fwy o'r cynigion. Gall hyn olygu bod cwmnïau yn cyd-weithio gydag eraill er mwyn darparu'r gwasanaethau mae S4C ei angen. Rydych yn cytuno i hyn wrth gyflwyno'r cais.

Mae S4C yn cadw'r hawl i adolygu a newid ei hanghenion os yw'r ERC yn cyhoeddi newidiadau i amserlen y gystadleuaeth neu'n newid strwythur y gystadleuaeth neu'r tymor.

Bydd yn rhaid i'r cwmni llwyddiannus gydymffurfio â'r canlynol (ymysg eraill):
- Canllawiau Cydymffurfiaeth S4C (gan gynnwys Cod Darlledu Ofcom);
- Polisïau Iechyd a Diogelwch S4C;
- Cynllun Iaith S4C;
- Gofynion Technegol S4C ;
- unrhyw ganllawiau eraill sy'n weithredol i S4C neu wasanaethau S4C ar adeg y darllediadau

ac fe ddylai pob cais gynnwys y gost o gydymffurfio â'r uchod. Mae mwyafrif canllawiau S4C wedi eu cynnwys ar safle Cynhyrchu S4C. Os oes angen copïau, dylid cysylltu gyda Materion Busnes S4C.

Deddf Rhyddid Gwybodaeth
Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ('DRhG') yn weithredol i'r ddau Ddarlledwr. Os yw unrhyw gwmni yn ystyried fod unrhyw wybodaeth a ddarperir ganddo i S4C yn sgil y gwahoddiad hwn naill ai o natur sensitif yn fasnachol neu yn gyfrinachol, dylai'r cwmni nodi hynny yn benodol, gan roi ei resymau dros ystyried y fath wybodaeth yn wybodaeth sensitif yn ei gais. Bydd S4C yn cymryd ystyriaeth o farn a rhesymau'r cwmni wrth benderfynu os ydynt am ryddhau'r wybodaeth mewn ymateb i Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Fodd bynnag, mae'n rhaid i gwmnïau ddeall a derbyn y bydd S4C yn datgelu'r fath wybodaeth os yw'n derbyn cyngor cyfreithiol bod rhaid gwneud hynny er mwyn cydymffurfio gyda'r DRhG.

Gwarchod Data
Mae pob cwmni yn awdurdodi S4C i brosesi'r holl wybodaeth a gyflwynwyd fel rhan o'i gais ac yn cadarnhau ei fod wedi sicrhau caniatâd pob trydydd parti i alluogi S4C i wneud hynny.
Cedwir cynnwys unrhyw gyfathrebu neu drafodaethau rhwng S4C ag unrhyw gwmni yn gwbl gyfrinachol ac yn ddarostynedig i gytundeb hyd nes bod y cytundeb wedi ei arwyddo rhwng S4C a'r cwmni llwyddiannus.